**EITEM AR YR AGENDA: 14**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**18fed Mehefin 2007**

**DATGANIAD O GYFRIFON 2006-2007**

**Adroddiad gan Ken Finch,**
**Trysorydd i'r Awdurdod**

## Diben yr adroddiad

**1.** I geisio cymeradwyaeth yr aelodau ar Ddatganiad Cyfrifon Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru 2006-2007 yn unol â darpariaethau Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005.

## Datganiad o Gyfrifon

**2.** Mae'r Datganiad o Gyfrifon drafft ynghlwm ac mae wedi ei anfon at Swyddfa Archwilio Cymru a fydd yn archwilio'r cyfrifon ac yn cyhoeddi ei hadroddiad yn ffurfiol maes o law. Yn anffodus nid yw'r fersiwn Gymraeg o'r Datganiad o Gyfrifon drafft ar gael ar hyn o bryd ond hyderwn y bydd ar gael erbyn y cyfarfod.

Er mwyn cwrdd â gofynion amserlen Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) rhagwelir y bydd y Panel Gweithredol yn cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon archwiliedig ym mis Medi. Trafodir hyn yng nghyd-destun adroddiad arall ar agenda'r cyfarfod hwn.

## Argymhelliad

**3.** Argymhellir fod yr Awdurdod yn cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2007.